

Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

Y Cynghorydd Paul Davies

Ward: Caerau

Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar **30 Ebrill 2025**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

Y Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol am ail dymor i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Ward Caerau ym mis Mai 2022. Cefais fy mhenodi'n gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 3 ym mis Mai 2022 a daeth y tymor hwn i ben pan gefais fy mhenodi i swydd Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd ym mis Mai 2024, cefais fy ail-benodi i'r Cabinet ar gyfer y flwyddyn 2025/26.

Fel Aelod Cabinet rwy'n mynychu'r cyfarfodydd canlynol:

Cyfarfodydd y Cabinet.
Cyfarfodydd Cabinet Anffurfiol.
Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet (BRhCC).
Pwyllgor y Cabinet – Rhianta Corfforaethol
Pwyllgor y Cabinet dros Gydraddoldeb a Chysylltiadau Cyflogaion
Grŵp Strydoedd Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC) – Cadeirydd
Bwrdd y Rhaglen Datgarboneiddio – Cadeirydd

Rwyf hefyd wedi fy mhenodi i gynrychioli'r awdurdod ar y cyrff allanol canlynol:

Canolfan Cyngor ar Bopeth Pen-y-bont ar Ogwr a Maesteg.
Gweithgor Agregau De Cymru
Pwyllgor y Cabinet – Rhianta Corfforaethol
Pwyllgor y Cabinet dros Gydraddoldeb a Chysylltiadau Cyflogaion
Capita Glamorgan Ltd. Cydbwyllgor Menter
PATROL – Cydbwyllgor Dyfarnu.
Cydbwyllgorau Amlogsfeydd Margam a Choety.
Grŵp Llywio Strategol Ynni Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon:

[Y Cynghorydd Paul Davies](#)

Gweithgareddau Etholaethol

Rwyf wedi gwneud llawer o atgyfeiriadau at BCBC ar ran fy etholwyr (gormod i'w crybwyll ar y ddogfen hon) y rhan fwyaf ohonynt wedi'u datrys yn llwyddiannus, rwy'n postio cyn ac ar ôl ffotograffau o atgyfeiriadau a wnaed ar fy nhudalen Facebook Cynghorydd.

Rwy'n cynnal cymorthfeydd rheolaidd fel arfer yn y ganolfan gymunedol ar Woodlands Terrace ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis 10am tan hanner dydd. Dwi hefyd yn cynnal cymorthfeydd stryd pan dwi'n cerdded o amgylch y ward.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Mynychais gwrs ymwybyddiaeth hinsawdd a ddarparwyd gan UK100 ar dri phenwythnos preswyl mewn gwahanol leoliadau yn Lloegr dros yr Hydref fel rhan o fy natblygiad fel Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd, ariannwyd y cwrs hwn gan UK100 gyda chostau teithio wedi'u talu gan yr Awdurdod.

Mynychais hefyd gwrs Arweinyddiaeth a ddarparwyd gan CLILC y Gwanwyn hwn a oedd yn cynnwys dau benwythnos preswyl yng Nghaerdydd a phenwythnos ar-lein, unwaith eto fel rhan o fy natblygiad fel Aelod o'r Cabinet.

Ar hyn o bryd rwy'n gweithio gyda fy nghydweithwyr yn Ward Caerau i sicrhau cyllid i wella'r parc chwarae yn Ystâd Blaencaerau. Mae hyn yn waith aml-asiantaeth gan gynnwys Cyngor Tref Maesteg, Buddsoddi Lleol Caerau, a Cymoedd i'r Arfordir sydd yn berchen ar y parc ar hyn o bryd. Mae'r parc hwn bellach ym mherchnogaeth Cyngor Tref Maesteg (CTM) a bydd yn cael ei adnewyddu ar gyfer trigolion ardal Blaencaerau trwy arian gan CTM a'r gronfa CAT Tref a Chymuned.

Fel rhan o gronfa ward Cyngor Tref Maesteg, gyda chytundeb fy nghyd-gynghorwyr ward rydym wedi gosod rheiliau llaw ar hyd nant Nant Gwyn Bach er diogelwch y cyhoedd gan ddefnyddio'r llwybr cyfagos ger Siop Filco, rydym hefyd wedi gosod mainc goffa i gyn-filwyr ger y Senotaff ar Sgwâr Caerau a hefyd wedi defnyddio'r gronfa i osod sawl diffibriliwr ledled y ward, sef y tu allan i Ardd y Farchnad, Canolfan Ieuentid Noddfa ac Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau.

Fe wnaethom hefyd dalu am sgip i'r Grŵp Afon Llynfi ei ddefnyddio fel rhan o'u glanhau'r afon ger Hamilton Terrace yng Nghaerau a darparu plannwr 3 haen a basgedi crog gyferbyn â Gwesty Blaenllynfi yng Nghaerau ar gais trigolion.

Rwyf hefyd wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Maesteg ers 2014 a chefais fy mhenodi'n Ddirprwy Faer yr awdurdod hwnnw am dymor 2025/26.

Cefais fy ail-benodi hefyd yn Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog ar gyfer Cyngor Tref Maesteg am y tymor 2025/26.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwy'n mynychu llawer o gyfarfodydd allanol ar wahân i'r rhai yn BCBC, rwy'n wirfoddolwr i un o'n helusennau lleol, Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau (YDC) ac yn teithio i Groes Cwrlwys bob nos lau i gasglu bwyd gan Tesco a M&S ar gyfer yr ymddiriedolaeth, rwyf hefyd yn cynorthwyo fy nghydweithwyr i ddadlwytho'r fan wrth ddychwelyd o'r casgliadau yn ôl a phan fo angen. Rwyf hefyd yn cysylltu â'r awdurdod fel sy'n ofynnol gan ysgrifennydd yr ymddiriedolaeth.

Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd Buddsoddi Lleol Caerau (ILC) ac fel yr aelod etholedig lleol wedi sicrhau dros £50,000 o gyllid i osod cegin fasnachol er mwyn cynnal caffi cymunedol, paneli solar gwerth £30k i wneud YDC yn adnodd cynaliadwy i gymuned Caerau, ac rwyf hefyd wedi sicrhau £10k ar gyfer fan newydd i gynnal casgliadau ar gyfer yr ymddiriedolaeth, daeth yr arian hwn o gronfa gymunedol Fferm Wynt Llynfi ac Afan. Gall CDT bellach ddarparu prydau bwyd a siop gymunedol â chymhorthdal, wedi'i thargedu at aelodau mwyaf difreintiedig y gymuned, ymhlith pobl eraill.

Rwyf hefyd yn aelod o bwyllgor Fferm Wynt Llynfi ac Afan sy'n gyfrifol am ddosbarthu £14,000 i gymuned Caerau yn flynyddol am y 24 mlynedd nesaf.

Y Cyngorydd Paul Davies:

Dyddiad: 6 Mehefin 2025